Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Kathryn Davies**

**Rhydaman**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Mehefin 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yng nghartref y gwarchodwr plant yn fawr. Mae ganddynt lais cryf iawn a gallant wneud dewisiadau o ran sut maent yn treulio eu hamser. Mae'r plant yn dewis teganau a gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn hyderus o blith y rhai sydd ar gael. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol a hoffus iawn â'r gwarchodwr plant, a gyda'i gilydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gwasanaeth magwrus a gofalgar ac yn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'n rheoli ymddygiad y plant mewn ffordd sensitif. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae rhydd ac yn cynllunio gwibdeithiau a theithiau i ehangu profiadau'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei chartref yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r safle yn groesawgar, yn gartrefol ac yn drefnus iawn. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o adnoddau diddorol, sy'n helpu'r plant i chwarae a datblygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn dda ac yn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r gwaith papur yn drefnus iawn ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei gwasanaeth yn flynyddol ac yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac yn gyfforddus iawn yng nghwmni'r gwarchodwr plant. Mae ganddynt lais cryf iawn ac maent yn gwneud llawer o ddewisiadau o ran sut maent yn treulio eu hamser. Er enghraifft, gall y plant ddewis chwarae yn yr ystafell chwarae neu wrth fwrdd y gegin, a gall y plant hŷn ddefnyddio'r ystafell fyw i ymlacio ar ôl ysgol neu chwarae pêl droed yn yr ardd. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus ac yn rhyngweithio'n gyson â'i gilydd a gyda'r gwarchodwr plant. O ganlyniad, gallant gyfleu eu dymuniadau, sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn setlo'n gyflym iawn pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad ac yn meithrin cydberthnasau agos a chadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Maent yn cael budd o warchodwr plant sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion y dydd, sy'n eu helpu i feithrin ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf â'i gilydd ac yn dechrau chwarae gyda'i gilydd, yn ogystal ag ochr yn ochr â'i gilydd, o oedran cynnar.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio'n dda iawn. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro ac yn ymateb yn dda i'r gwarchodwr plant pan fydd yn cynnig datrysiadau i fân anghytundebau. Gwelsom ddau blentyn yn chwarae gyda'i gilydd â didolwr siapiau electronig; roeddent yn gwrando'n dda ar y gwarchodwr plant wrth iddi eu hannog i gymryd eu tro wrth roi eu siapiau dewisol yn y didolwr.

Mae'r plant yn mwynhau'r chwarae a'r dysgu yn fawr iawn. Maent yn dewis adnoddau a gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn hyderus ac yn cael cyfleoedd helaeth i gychwyn eu chwarae eu hunain. Roedd yr holl blant wrth eu bodd yn dewis posau i'w cwblhau a llyfrau i edrych arnynt, gan gynnwys rhai Cymraeg. Maent yn defnyddio eu dychymyg wrth chwarae rôl, gan ymgolli'n llwyr ar eu pen eu hunain neu wahodd y gwarchodwr plant i ymuno â'u chwarae. Mae'r plant yn ymuno'n frwdfrydig pan fydd y gwarchodwr plant yn awgrymu gweithgaredd gwahanol fel tynnu llun neu chwarae â thoes chwarae. Maent yn canolbwyntio ac yn cynnal eu diddordeb am gyfnod priodol o amser yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Wrth chwarae, mae'r plant iau yn dechrau enwi lliwiau, siapiau a defnyddio rhifau yn llwyddiannus a datblygu rheolaeth gorfforol, er enghraifft wrth ddefnyddio pensiliau neu redeg a dringo. Maent hefyd yn cael cyfleoedd rhagorol i ehangu eu profiadau drwy fynd ar deithiau a gwibdeithiau.

Mae'r plant yn meithrin sgiliau annibyniaeth a hunangymorth yn dda. Maent yn gwneud penderfyniadau am yr hyn y maent am ei wneud, ac mae'r plant hŷn, gyda chaniatâd eu rhieni, yn cerdded y pellter byr i gartref y gwarchodwr plant o'r ysgol ar eu pen eu hunain, gan groesi'r ffordd gyda hebryngwr croesfan yr ysgol. O oedran ifanc, mae'r plant yn bwyta'n annibynnol, yn eistedd gyda'i gilydd wrth y bwrdd ac yn defnyddio cyllyll a ffyrc yn fedrus. Maent yn rhoi cynnig ar sychu eu dwylo a'u hwynebau eu hunain ac ar wisgo a thynnu eu hesgidiau glaw eu hunain.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac mae ganddi amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau trylwyr i'w helpu i wneud hyn. Mae'n deall ei chyfrifoldeb i amddiffyn y plant ac wedi diweddaru ei hyfforddiant yn unol â gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig yn ddiweddar. Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau addas a chofnodion trefnus ar waith ar gyfer damweiniau, digwyddiadau, anafiadau sy'n bodoli eisoes, ac unrhyw feddyginiaeth a roddir. Gwelsom weithdrefnau hylendid bwyd da yn cael eu dilyn mewn perthynas â newid cewynnau a pharatoi bwyd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl bwyta. Mae'n cadw cofnod cywir o bresenoldeb y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn annog ffordd iach o fyw. Mae'n darparu byrbrydau a phrydau cartref iach ac yn sicrhau bod y plant yn treulio digon o amser yn yr awyr iach yn ei gardd ac ar wibdeithiau.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd gwirioneddol. Mae'n rheoli eu hymddygiad yn dda ac yn ymdrin â mân faterion mewn ffordd sensitif a phwyllog. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu rhannu, cymryd eu tro, a chyd-dynnu. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i fod yn garedig ac yn gwrtais, ac i ddangos moesau da. Mae'n ymddwyn fel model rôl dda bob amser.

Mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'n darparu lleoliad sy'n seiliedig ar chwarae, lle y gall y plant ddilyn eu diddordebau eu hunain ac arwain eu chwarae eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi eu chwarae a'u dysgu'n dda, er enghraifft drwy enwi lliwiau, anifeiliaid neu siapiau, darllen llyfrau, eu hannog i ddyfalbarhau â phosau, neu ymuno â nhw i chwarae rôl pan gaiff ei gwahodd. Clywsom y gwarchodwr plant yn defnyddio nifer da o ymadroddion Cymraeg. Mae'r gwarchodwr plant yn ehangu profiadau'r plant a'u dealltwriaeth o'r byd ehangach ymhellach drwy fynd â nhw ar deithiau rheolaidd, er enghraifft i'r goedwig neu ddigwyddiadau wythnosol mewn gerddi lleol, neu i ymweld â gwarchodwyr plant eraill. Mae'n sicrhau bod y plant hŷn yn cael rhyddid i ddewis sut maent yn treulio eu hamser ar ôl ysgol. Mae'r gwarchodwr plant yn olrhain datblygiad y plant iau ac mae wedi nodi yr hoffai ddatblygu ei sgiliau arsylwi ac asesu er mwyn ei helpu i gynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu unigol. Nid yw wedi ystyried y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru na'r Cwricwlwm i Gymru eto. Mae gan y gwarchodwr plant bolisi Anghenion Dysgu Ychwanegol da ar waith, ac mae wedi cwblhau cwrs cychwynnol ar ddarpariaeth ADY yn ddiweddar a fydd yn ei chefnogi os bydd yn gofalu am unrhyw blentyn y nodwyd bod ganddo ADY neu sydd ag ADY sy'n dod i'r amlwg.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae cartref y gwarchodwr plant yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Mae'n ddiogel ac mae'r drysau allanol yn cael eu cloi, ac mae'r allweddi'n cael eu cadw y tu hwnt i gyrraedd y plant. Mae nodweddion diogelwch fel giatiau babanod a gardiau rheiddiaduron wedi'u gosod fel sy'n briodol. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r safle. Mae ganddi asesiadau risg cynhwysfawr ar waith y mae'n eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae ganddi bolisïau diogelwch da sy'n nodi gwiriadau amgylcheddol. Er enghraifft, fe'i gwelsom yn chwilio am beryglon yn yr ardd cyn i'r plant fynd allan i chwarae, ac mae ganddi hefyd strategaeth ar waith i barhau i'w goruchwylio. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn trefnu i'r dyfeisiau nwy gael eu gwasanaethu'n flynyddol ac mae'n cofnodi gwiriadau misol o'r larwm tân. Mae'n cynnal ymarferion rheolaidd ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ac yn eu cofnodi, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n codi a'i thrafodaethau dilynol â'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn creu amgylchedd cartrefol sy'n addas i blant. Mae gan y plant ddigon o le i symud o gwmpas a chwarae. Maent yn cael budd o ystafell chwarae benodol a deniadol sy'n drefnus iawn. Mae'r plant yn defnyddio'r gegin i fwyta a chwarae'n flêr, fel peintio neu chwarae â thoes chwarae. Mae bwrdd mawr y gegin hefyd yn ddelfrydol i dynnu lluniau neu chwarae gemau. Mae ystafell fyw gyfforddus yn cynnig lle tawel i'r plant iau gysgu neu'r plant hŷn ymlacio a gwylio'r teledu ar ôl ysgol. Mae gardd fawr sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda y gellir ei chyrraedd o'r gegin. Mae'r stepiau i lawr yn serth ac nid oes canllaw, ond mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau addas ar waith i sicrhau diogelwch y plant. Mae'r ardd yn cynnig rhagor o gyfleoedd da i'r plant chwarae a dysgu ym mhob maes datblygu drwy gyfarpar fel cegin fwd ag amrywiaeth dda o adnoddau, rhaeadr ddŵr/stand beintio Persbecs, ffrâm ddringo a sleid. Mae ardal laswellt fawr yn cynnig digonedd o le i'r plant redeg o gwmpas neu chwarae pêl droed ac mae ardal batio lai yn cynnig lle iddynt chwarae â theganau ar olwynion ac amrywiaeth o gyfarpar arall.

Ceir amrywiaeth helaeth o adnoddau o ansawdd da dan do ac yn yr awyr agored sy'n lân, yn ddiogel ac yn addas i'r plant sy'n eu defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da o ddeunyddiau naturiol ac mae'n storio ac yn arddangos adnoddau ar silffoedd agored ac mewn basgedi agored deniadol lle y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae rhai o'r adnoddau yn codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth a gwahaniaethau diwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg. Mae gan y gwarchodwr plant gyfoeth o adnoddau ychwanegol; fodd bynnag, gall diffyg cynllunio olygu nad yw'r rhain bob amser yn cael eu defnyddio i gefnogi camau nesaf y plant o ran eu chwarae a'u dysgu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg lleoliad sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn dda iawn. Mae'r gwaith papur wedi'i drefnu'n ardderchog, yn hawdd cael gafael arno, ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau da i'w helpu i redeg ei lleoliad yn ddiogel ac yn ddidrafferth. Mae'n darparu Datganiad o Ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaethau a gynigir yn gywir.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldeb i adolygu ei hymarfer. Mae'n ceisio safbwyntiau'r rhieni a'r plant ac yn eu defnyddio i lywio adolygiad blynyddol o Ansawdd y Gofal sy'n cynnig gwerthusiad o'i lleoliad a'i hymarfer. O ganlyniad, mae'r gwarchodwr plant yn nodi rhai meysydd eang yr hoffai eu datblygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn gymwysedig ac yn sicrhau ei bod yn cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel cymorth cyntaf pediatrig, diogelu a hylendid bwyd. Mae hefyd yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn ymgymryd â chyrsiau eraill sydd ar gael. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ganddi wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ei chyfer hi ei hun ac ar gyfer aelodau mwyaf perthnasol y cartref. Ar adeg yr arolygiad, roedd mwy na thair blynedd ers i un aelod o'r cartref gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond roedd y gwarchodwr plant wedi gwneud cais am wiriad newydd. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud cais am grantiau gan yr awdurdod lleol yn rheolaidd, ac yn gwneud defnydd da ohonynt i brynu cyfarpar ac adnoddau.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r rhieni. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am eu plant a'r hyn y maent yn ei wneud drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys ap cyfathrebu electronig, lluniau ac adborth ar lafar. Mae'n casglu'r holl wybodaeth berthnasol cyn i'r plant ddechrau yn ei lleoliad er mwyn sicrhau y gall ddiwallu eu hanghenion unigol. Gwelsom lawer o gardiau a negeseuon diolch gan rieni ac roedd yr holl holiaduron adborth a gawsom yn cynnwys adborth rhagorol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Darparu canllaw addas ar gyfer y stepiau yn yr ardd. |
| Safon 13 (Gwarchodwr Plant) - Person Addas | Sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu mewn modd amserol. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Ystyried y Fframwaith Ansawdd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru a'r Cwricwlwm Cymru er mwyn helpu i ddatblygu arferion asesu a chynllunio sy'n cefnogi chwarae a dysgu unigol y plant. |
| Datblygu'r adolygiad o Ansawdd y Gofal ymhellach fel ei fod yn fwy gwerthusol er mwyn helpu i nodi meysydd penodol i'w datblygu. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/06/2024